Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Welsh Folk Dance Society

POLISI CYFLE CYFARTAL

Dylid darllen y polisi hwn mewn perthynas â chyfansoddiad Cymdeithas Ddawns Werin Cymru sydd ar gael i bob aelod ac sy'n cynnwys polisi Iaith Gymraeg y Gymdeithas.

Y mae Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn ymrwymedig i bolisi o gydraddoldeb cyfle ac ymarfer a bydd yn sicrhau fod pob gwirfoddolwr a gweithwyr cyflogedig a defnyddwyr y gwasanaeth, yn awr neu yn y dyfodol, yn cael eu trin yn gyfartal fel unigolion beth bynnag fo'u hoed, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws fel rhiant, cred boliticaidd, cenedligrwydd, hil, crefydd neu dueddiadau rhywiol.

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn cymryd i ystyriaeth y ddeddfwriaeth sy'n bodoli : Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Camwahaniaethau Rhywiol 1975, Deddf Cyflogau Cyfartal 1970, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd 1995.

Bydd y Polisi Cyfle Cyfartal hwn yn cael ei weithredu ar draws pob agwedd o waith y sefydliad wrth :-

ethol aelodau i'w Bwyllgor Gwaith;

ethol a phenodi swyddogion a gwirfoddolwyr;

ei holl ymwneud â'i haelodau ac aelodau o'r cyhoedd.

PWYLLGOR GWAITH

Bydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn anelu i sicrhau fod Pwyllgor Gwaith y sefydliad yn gynrychioladol o'r Gymdeithas. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn gyfrifol am sicrhau fod y polisi cyfle cyfartal yn cael ei weithredu'n iawn, ei fonitro a'i adolygu.

GWIRFODDOLI

Bydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn sicrhau nad yw unrhyw ymgeisydd am swydd neu wirfoddolwr yn derbyn triniaeth llai ffafriol nag un arall ar sail oed, anabledd, tarddiad ethnig, statws priodasol neu statws fel rhiant, cred wleidyddol, hil, crefydd, rhyw neu dueddiad rhywiol.

Y mae Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn ymrwymedig i recriwtio a dewis yn agored a phle bynnag y mae hynny'n bosibl bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu a dulliau cyfartal yn cael eu dilyn.

Gwneir gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r polisi cyfle cyfartal ac fe roir hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â chyfleon cyfartal os yn briodol.

Bydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn sicrhau hefyd fod newidiadau a datblygiadau yn anghenion gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod a newidiadau priodol yn cael eu gwneud mewn amodau gwaith a/neu gynnig hyfforddiant.

Y CYHOEDD A DEFNYDDWYR Y GWASANAETH

Bydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn anelu i wneud ei gwasanaethau ar gael i ystod mor eang a phosib o'r cyhoedd ac er mwyn cyflawni hyn bydd yn cymryd camau i symud rhwystrau a allai atal cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a defnyddwyr fyddai'n dymuno gwneud hynny rhag cael mynediad cyfartal i weithgareddau'r sefydliad.

Bydd hyn yn cynnwys :-

sicrhau fod gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn mannau y gall pobl anabl gael mynediad iddynt;

darparu cyfleusterwau i alluogi pobl anabl i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau, e.e. offer clywed mewn ystafelloedd, cyfieithwyr;

sicrhau fod cynllun defnydd cyhoeddusrwydd yn cymryd i ystyriaeth anghenion yr anabl yn nhermau print, diwyg a gwybodaeth am fynediad;

annog a galluogi pobl o grwpiau a dangynrychiolir i fynychu a chymryd rhan.